ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	15 Medi 2021
SWYDDOG ARWEINIOL:	Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad
SWYDDOG CYSWLLT:	Yr Uwch Swyddog Trwyddedu trwyddedu@sirddinbych.gov.uk 01824 706433
TESTUN:	Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol 2021/22

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.2 Darparu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol arfaethedig 2021/22 i'r Aelodau.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol arfaethedig ynghlwm, yn Atodiad 1, i'r Aelodau ei hystyried a'i chymeradwyo.

3. GWYBODAETH GEFNDIR

3.1 Bydd Aelodau yn ymwybodol y rhoddwyd diweddariad ar lafar mewn cyfarfod blaenorol ym mis Mehefin am lwyth gwaith Yr Adain Drwyddedu, ynghyd ag eglurhad am yr anawsterau i gynnal rhaglen gwaith i'r dyfodol dros y 18 mis diwethaf yn sgil effaith Coronafeirws ar yr Adain. Cytunwyd y byddai swyddogion yn ail-lunio rhaglen gwaith i'r dyfodol ac yn ei gyflwyno er mwyn i'r Aelodau ei gymeradwyo yn y cyfarfod hwn.

3.2 Wrth ddrafftio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, mae Swyddogion wedi ystyried y polisïau sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Trwyddedu a dyddiadau adolygu'r polisïau hynny ynghyd ag unrhyw newid deddfwriaethol posibl a gynigir gan lywodraeth ganolog.

4. ARGYMHELLIAD

4.1 Bod yr Aelodau yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol arfaethedig, fel y nodwyd yn Atodiad 1.